

Digimap for Schools

Fy Sbectol Daearyddiaeth

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 1



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llw o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd i weddu eich dosbarth a'r disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Fy Sbectol Daeryddiaeth

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 1	Ardal leol: lleoedd chwarae	Unrhyw le

Gwybodaeth/Sgiliau	Darllen, lleoli a dehongli lleoedd ar fapiau/ychwanegu dynodwyr a labeli
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Defnyddio geirfa syml am ddaeryddiaeth i gyfeirio at fannau dynol a daeryddol a disgrifio eu lleoliad ar fap. Creu mapiau syml ac astudio ar raddfa leol
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Dysgu am sut a pham mae cysylltiad rhwng pobl a lleoedd. Cydnabod sut gall camau pobl wella neu niweidio'r amgylchedd
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle ac Amgylchedd: 1-08a, 2-181, 1-13a, 2-13a, 1-14a, 2-14a

Gweithgaredd

Mae'r plant yn tynnu llun ac yn ysgrifennu am eu gweithgareddau chwarae awyr agored lle maent yn byw, cyn dod o hyd i'r lleoedd hyn ar fap raddfa fawr. Maent yn amlygu'r cysylltiadau rhwng lleoedd dynol a ffisegol eu tirwedd a'r mathau o bethau y gallant eu gwneud yno. Yn olaf, maent yn meddwl am y lleoedd chwarae sydd ar gael yn lleol, pa mor dda ydynt, a beth ellir ei wneud i'w gwella. Mae cyfle i wneud gwaith maes dilynol i werthuso rhai o'r lleoedd awyr agored sydd ar gael.

Cyflwyniad

Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar weithgareddau chwarae a hamdden plant yn yr awyr agored: mae rhyddid i grwydro, amser a'r tywydd yn amlwg ar y rhestr yn ogystal â'r oedolion a'r cludiant sydd ar gael. Mae'r math o dirwedd y maent yn byw ynddi yn ffactor dylanwadol arall gan fod nodweddion dynol a ffisegol ardal yn dylanwadu ar beth allai gael ei wneud yno. Er enghraifft, mae plentyn sy'n byw ar yr arfordir yn llawer mwy tebygol o wneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r traeth a'r môr o gymharu â plentyn sy'n byw mewn man mewndirol. Bydd plentyn sy'n byw mewn dinas yn dod wyneb yn wyneb â mannau tra gwahanol i'r rhai a geir mewn ardal wledig. Bydd mannau penodol megis pwll nofio, parc, sinema neu gae pêl-droed yn dylanwadu ar weithgareddau posibl hefyd.

Mae *Digimap for Schools* yn cynnig mapiau graddfa fawr o'r ardal leol sy'n helpu plant i ddod o hyd i'r mannau hyn a siarad amdanynt. Mae'n ddefnyddiol eu hargraffu ar gyfer gwaith maes er mwyn casglu data.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

Trafodwch gyda'r disgyblion ble maent yn mynd i chwarae a chael hwyl a sut fath o lleoedd yw'r rhain. A ydynt yn lleoedd sydd wedi'u hadeiladu fel canolfannau hamdden, clybiau neu barciau rhôl-sglefrio neu a ydynt yn lleoedd 'naturiol' fel traethau, coed neu gaeau? A oes ganddynt ardd i chwarae ynddi? Ble maent yn chwarae ar benwythnosau? Lluniwch restr o nodweddion a lleoedd gyda'r disgyblion.

Tasgau

1. Dosbarthwch y ddalen waith a gofynnwch i'r dosbarth 'wisgo' eu sbectol daearyddiaeth arbennig a dychmygu eu bod yn gallu 'gweld' y mannau a'r lleoedd yn eu hardal leol lle maent yn mynd i chwarae drwy un llygad. Drwy'r llygad arall, mae angen iddynt ddychmygu eu bod yn gallu 'gweld' y pethau maent yn eu gwneud yno. Gofynnwch iddynt dynnu llun ac ysgrifennu'r lleoedd a'r gweithgareddau hyn ar y ddalen waith.



2. Trafodwch y cysylltiad rhwng y pethau yr ydym yn eu gwneud â'r mannau o'n cwmpas:
 - Beth hoffai'r disgyblion ei wneud mewn gwirionedd pe byddai rhywle ar gael i wneud hynny?
 - Beth hoffai'r disgyblion ei ychwanegu yn y gymdogaeth i'w gwneud yn well?
3. Gofynnwch i'r disgyblion agor *Digimap for Schools* a dod o hyd i'r ardal leol drwy chwilio am le neu god post. Dylent glosio a sganio'r map yn ofalus i ddod o hyd i'r holl fannau a drafodwyd.
 - Beth yw'r nodweddion 'dynol' neu sydd 'wedi'u hadeiladu'?
 - Beth yw'r nodweddion 'naturiol' neu ffisegol'?
 - Beth yw'r nodweddion gorau ar gyfer chwarae?


Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

4. Nawr, gofynnwch iddynt ddod o hyd i hoff le chwarae ar y map. Gall hwn fod yn eu stryd, mewn parc lleol, neu yng ngardd eu ffrind. Agorwch y bar Anodiadau a dewiswch 'Add Marker' (Ychwanegu Dynodwr), cyn clicio ar y lle yr ydych am ei ychwanegu. Wedyn, rhwch enw ar gyfer y lle hwn drwy ddewis 'Place Label' (Gosod Label). Gall hwn fod yn enw arbennig sydd gennych yn hytrach na'r un sydd ar y map.

Ychwanegwch ffotograffau os oes rhai ar gael. Mae'r ffotograffau isod wedi'u cymryd o wefan *Play Spaces in Bristol*; gweler y dolenni gwe (a gadwyd ar y gyriant lleol yn gyntaf).

Awgrym:
Dewiswch liw,
ffont a maint y
testun **cyn** dewis
label y lle.



Ychwanegwch ffotograffau gyda hwn.



Symudwch ffotograffau gyda hwn. Cliciwch ar y dynodwr i symud y ffotograff a'r pin. Cliciwch ar y ffotograff er mwyn ei symud.

5. Pan mae'r disgyblion yn fodlon ar eu map, dylent ei argraffu. Trafodwch y lleoedd chwarae gorau gyda'r dosbarth a holwch ba rai sydd yr un fath.

Nodyn diogelwch: gall eraill yn eich ysgol weld y mapiau a gedwir yn y ffolderi *Digimap for Schools* ar-lein. Cymerwch ofal i wneud yn siŵr bod y manau lle mae plant yn chwarae y tu allan i'r ysgol yn cael eu cadw'n breifat.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mynd gam ymhellach

- Paratowch rywfaint o waith maes i werthuso lleoedd chwarae lleol dynodedig. Defnyddiwch fapiau a argraffwyd o'r ardal o *Digimap for Schools* i ddynodi'r lleoedd gorau a'r lleoedd gwaethaf. Wedyn, defnyddiwch y wybodaeth hon i greu eich canllaw ysgrifenedig a'ch map eich hun. Mae gan *Bristol Play Service* leoedd chwarae wedi'u mapio ar draws y ddinas (gweler y dolenni gwe). Ewch i'r wefan hon i gael rhai syniadau am sut i wneud eich map eich hun. Ewch i wefan eich cyngor lleol i weld a ydynt yn rhestru ac yn mapio parciau lleol a lleoedd chwarae.
- Paratowch a lluniwch le chwarae newydd ar gyfer eich ardal. Gall hwn fod yn goedwig fach, parc newydd, canolfan ddringo, sinema, ac ati. Lluniwch ddyluniadau a defnyddiwch eich mapiau lleol i feddwl am ble gall lleoliad newydd gael ei roi. Ysgrifennwch lythyr i'ch cyngor lleol i egluro pa angen sydd yn eich ardal, ac anfonwch eich map atynt i ddangos eich awgrym. Fel arall, anfonwch fap atynt sy'n dangos ardaloedd lle mae'r lleoedd chwarae wedi mynd yn ddi-raen.
- Edrychwch ar ardal gyferbyniol ac amlygwch leoedd lle gallai'r plant fynd a beth allant ei wneud yno. Sut mae'n cymharu â'ch ardal chi?

Dolenni ar y we

- *Play Spaces in Bristol* www.goplacestoplay.org.uk/
- *Play Scotland* www.playscotland.org
- Chwilio am barciau hwyl mawr ar fapiau www.ukrides.info/uk_parkmaps.htm

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013


Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Fy Sbectol Daearyddiaeth



Nodweddion tirwedd

Fy ngweithgareddau